

ADRODDIAD BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU 2021/22

Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar 5 Ebrill 2022 i'w weld isod:

Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau cymedrig yn 14% o blaid dynion. Dyma'r gwahaniaeth rhwng y tâl cyfartalog fesul awr i ddynion a'r tâl cyfartalog fesul awr i ferched drwy gyfuno'r holl gyflogau yn y Cwmni.

Ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau canolrifol yw dim. Dyma'r gwahaniaeth rhwng y tâl canolig fesul awr i'r holl ddynion a'r tâl canolig fesul awr i'r holl fenywod.

Nid oes gennym unrhyw gyfrifiadau bwlch cyflog rhwng y rhywiau cymedrig na chanolrif ar gyfer bonysau, gan nad yw hyn yn berthnasol i ni.

Cafodd cyflogau dynion a menywod eu rhestru o'r uchaf i'r isaf a'u rhannu'n bedair rhan gyfartal ar gyfer cyflogau uwch ac is. Mae ein cyfran o ddynion a merched ym mhob

chwartel tâl fel a ganlyn:

	% y dynion	% y menywod
Chwartel isaf	32	68
Chwartel canol isaf	48	52
Chwartel canol uchaf	40	60
Chwartel uchaf	75	25

Mae hyn yn dangos bod mwy o fenywod yn ein chwarteli isaf (Glanhawyr, Cynorthwywyr Arlwy, Swyddfa Docynnau, Derbynyddion). Fodd bynnag, mae'r Chwartel Canol Isaf wedi'i rannu'n agosach, gyda'r Chwartel Canol Uchaf yn dangos hollt o blaid menywod. Mae'r Chwartel Uchaf yn dangos bod mwy o ddynion yn y categori hwnnw.

Rydym yn ystyried bod y ffigurau'n gadarnhaol iawn o'u cymharu â sefydliadau eraill a chyfartaledd y DU. Mae ein cyflogau dynion a menywod wedi'u rhannu'n deg dros yr holl lefelau cyflog.

Rydym wedi ymrwymo i dâl cyfartal i holl aelodau'r tîm, ac rydym yn defnyddio system gwerthuso swyddi i bennu graddau tâl ar gyfer y mwyafrif o rolau i sicrhau strwythur teg.